RAMBLERS CYMRU

Etholiadau Lleol 2022

Mae cerdded y llwybrau sy'n croesi ein cymunedau a'n cefn gwlad yn dod â ni'n nes at natur, yn ein cysylltu â'n gilydd, ac â threftadaeth ein mannau lleol. Mae archwilio lleoedd sy'n llawn natur o ansawdd uchel yn gwella ein hiechyd a'n hapusrwydd ac yn ein helpu i ymlacio a dadflino.

Rydym yn galw ar gynghorau a chynghorwyr i:

Gwella'r rhwydwaith llwybrau lleol, gan sicrhau bod gan dimau Hawliau Tramwy yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau, yn enwedig arwyddion a chynnal a chadw llwybrau.

Helpu i godi proffil pwysigrwydd ein llwybrau a'n seilwaith gwyrdd, gan gynnwys drwy benodi aelod o'r Cabinet fel hyrwyddwr Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

Sicrhau bod gwirfoddoli gwyrdd yn cael ei gefnogi drwy brosiectau awdurdodau lleol, a bod cynllunio seilwaith, datblygiadau newydd ac adfywio bob amser yn creu amgylchedd cerdded gwell.

The Ramblers' Association is a registered charity (England & Wales no 1093577, Scotland no SC039799) and a company limited by guarantee, registered in England & Wales (no 4458492). Registered office: 1 Clink Street, 3rd Floor, London, SE1 9DG.